

# CYMRU Â DIWYLLIANT BYWIOG LLE MAE'R GYMRAEG YN FFYNNU

## Menter Môn a'r daith tuag at...

*"Cymru â diwylliant bywiog  
ble mae'r Gymraeg yn  
ffynnu"*

Mae hyrwyddo a defnyddio'r iaith Gymraeg wedi bod yn ganolog i'n gwaith ni yn Menter Môn ers ein sefydlu dros 25 mlynedd yn ôl. Heddiw, fel yn 1996 mae'n dal i fod yn greiddiol i'n gweledigaeth fel corff sy'n gweithredu mewn ardal ble mae'r Gymraeg yn parhau yn famiaith i'r rhan fwyaf.

O'r Fenter Iaith i gynlluniau eraill Môn a Gwynedd fel Llwyddo'n Lleol ac Arfor - rydym yn cymryd pob cyfle i hyrwyddo ffyniant y Gymraeg a chreu amodau economaidd a chymdeithasol fel y gall Cymry Cymraeg o bob oed fyw a gweithio yma.



Mae Menter Iaith Môn yn gweithio yn benodol i ddarparu cyfleoedd a phrofiadau sy'n annog trigolion yr ynys i arddel y Gymraeg yn hyderus, trwy helpu i ddatblygu sgiliau a sicrhau cyfleoedd i siarad yr iaith. Dros y flwyddyn diwethaf mae nifer o brosiectau'r Fenter wedi gorfod addasu i wynebu heriau newydd ac mae sawl cynllun newydd wedi ei lansio hefyd. Un darn o waith pwysig mae Menter Iaith

Môn wedi ei gwblhau yn ddiweddar mewn partneriaeth â **Fforwm Iaith Môn** yw cyflwyno proffil iaith i'r ynys, mewn ymateb i gais gan Lywodraeth Cymru.

Un o ganfyddiadau mwyaf trawiadol yr adroddiad yw nad ydi'r Gymraeg yn cael ei throsglwyddo i'r genhedlaeth iau mewn bron i chwarter o gartrefi'r ynys ble mae'r ddau riant yn gallu siarad yr iaith.

Mae Elen Hughes, Prif Swyddog y Fenter Iaith yn egluro: "Mae hwn yn ddarn pwysig o waith a tra bod Môn yn parhau yn un o gadarnleoedd y Gymraeg - mae canlyniadau'r proffil yn dangos bod dal llawer o waith i'w wneud i sicrhau ei bod yn parhau i ffynnu yma. Dyna pam bod gwaith y Fenter mor bwysig.

"Mae ystadegau cenedlaethol yn dangos bod 80% o blant sy'n derbyn y Gymraeg yn y cartref yn parhau i fod yn siaradwyr rhugl o'i gymharu â 26% o blant sydd ddim yn dysgu'r iaith tan yr ysgol. Mae'n prosiectau, fel ein gwaith gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, Cymraeg i Blant a'r Mudiad Meithrin, ac apiau

poblogaidd '**Sellog**' yn ceisio mynd i'r afael â'r union fater yma. Y nod yw targedu rhieni er mwyn codi ymwybyddiaeth o'r fantais all y Gymraeg gynnig a chreu adnoddau i'w helpu nhw i wneud mwy o ddefnydd o'r iaith yn y cartref."

### Sellog yn mynd o nerth i nerth

Rydym wedi dod a newyddion i chi am apiau Sellog mewn newyddlenni yn y gorffennol - ond eleni mae technoleg y creadur bach melyn wedi gweld mwy o ddefnydd nag erioed.



Erbyn hyn mae'r apiau wedi cael eu lawr lwytho dros 35,000 o weithiau, a hynny ym mhob cwr o'r byd. Yn y flwyddyn ddiwethaf yn unig mae bron i 25,000 ymateb wedi bod i bostiadau Selog ar-lein, gan ennill dros hanner miliwn o argraffiadau i'r eicon ar y cyfryngau cymdeithasol.

Dyfeisiwyd y cymeriad yn wreiddiol yn 2010 i ddarlledu straeon Cymraeg ar orsaf radio Môn FM. Wrth i dechnoleg newid fe newidiodd y galw hefyd - gyda rhieni di-Gymraeg yng Nghaergybi yn gwneud cais am help i wneud mwy o ddefnydd o'r Gymraeg yn y cartref.

Ac felly cafodd yr apiau eu datblygu. Mae apiau canu, darllen ac ymarfer corff erbyn hyn, a chymeriad Selog bellach yn gyfarwydd i blant Ynys Môn a thu hwnt.

Mewn ymateb i gyfyngiadau Covid19 yn 2020, aethpwyd ati i ehangu'r ddarpariaeth i deuluoedd gan adnabod fod nifer, am y tro cyntaf erioed, yn gorfod addysgu eu plant gartref - a hynny yn her ychwanegol i rieni di-Gymraeg. Cafodd tymor cyfan o adnoddau Selog eu creu i blant 1-11 oed gan gynnwys lluo o daflenni, sesiynau ioga a gemau creadigol gyda'r bwriad o hwyluso dysgu o gartref.

Roedd yr ymateb yn wych, gyda 93% o'r rhai fu'n cymryd rhan yn y sesiwn ioga yn dweud bod yr adnodd yn ddefnyddiol iawn iddynt a'i fod wedi arwain at lawr lwytho apiau eraill yn y Gymraeg ar gyfer y teulu.

Eisiau dod i adnabod Selog yn well?  
Dilynwch y [linc yma](#).

### Theatr Ieuencid Môn

Er gwaethaf heriau Covid19 a chyfnodau clo mae TIM wedi addasu i redeg sesiynau actio am ddim i blant. Wedi eu harwain gan yr actor Gwion Aled, roedd 'Tîm ar y Sgrin' yn boblogaidd iawn gyda rhieni, a phlant yn gwerthfawrogi cyfle i gymdeithasu yn y Gymraeg ar adeg pan roedd ysgolion ar gau a dim gweithgareddau cymunedol. Meddai un rhiant: "Mi wnaeth fy merch wirioneddol fwynhau ei sesiwn - diolch. Mi fydda hi wrth ei bodd yn cael cymryd rhan mewn digwyddiadau tebyg eto."



### Helo Blod - y Gymraeg mewn busnes

Mewn sesiwn ar y cyd rhwng Busnes Cymru a Menter Iaith Môn cafodd cwmnïau lletygarwch Môn gyfle yn ddiweddar i glywed am fanteision defnyddio'r iaith wrth hyrwyddo a brandio eu busnes. Roedd y negeseuon am sut all y Gymraeg ychwanegu gwerth a denu cwsmeriaid newydd yn plethu gyda'r cynnig o gymorth ymarferol trwy Helo Blod, sy'n wasanaeth cyfieithu cenedlaethol. Mae am ddim i fusnesau ac elusennau ac yn cael ei ddarparu gan y Mentrau Iaith amrywiol ar draws Cymru - Menter Iaith Môn sy'n darparu gwasanaeth Helo Blod yn lleol.

Dyma oedd gan un busnes sydd wedi bod yn defnyddio Helo Blod i farchnata ei chynnyrch yn Gymraeg i'w ddweud: "Dw i'n siarad Cymraeg ond dwi ddim yn ddigon hyderus i'w ddefnyddio yn y busnes. Mae Helo Blod yn llenwi'r bwlch yna i fi, ac yn gwneud y cyfieithu i gyd drosta i."